Sustainable Development Commission

Healthy Futures

# Progress in Practice

## System Reoli Amgylcheddol Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro

Mae'r Ymddiriedolaeth GIG fwyaf yng Nghymru yn gweithio i wella ei chyfraniad i ddinasyddiaeth gorfforaethol dda drwy leihau ei heffeithiau amgylcheddol negyddol drwy system reoli'r amgylcheddol integredig a llwyddiannus.

### Crynodeb


Mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn cynnwys system reoli amgylcheddol fel rhan o'i hymdrechion tuag at ddatblygu cynaliadwy. Yr Ymddiriedolaeth yw'r fwyaf yng Nghymru, gydag ystâd helaeth ac amrywiol yn darparu gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd i boblogaeth o tua 500,000 a chyflogi 12,000 o bobl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod eu heffeithiau amgylcheddol yn rhai helaeth ac yn cydnabod eu cyfrifoldeb i ymddwyn fel dinesydd corfforaethol da er mwyn cyflawni mwy o gynhwysiant cymdeithasol ac ecwiti a gwelliant yn iechyd y gymuned a wasanaethir ganddi.

I'r perwyl hwn, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth strwythur rheoli amgylcheddol gyda gr·p llywio sy'n cyflwyno adroddiadau'n uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar system reoli amgylcheddol yr Ymddiriedolaeth. Mae Polisi Amgylcheddol ar waith ac mae System Reoli Amgylcheddol (EMS), wedi'i hardystio bellach i ISO14001, ar waith, sy'n darparu fframwaith ymarferol ar gyfer rheoli ynni, d·r, caffael nwyddau a gwasanaethau, rheoli gwastraff, llygredd tir, d·r ac aer, gollyngiadau i ddraeniau a'r defnydd o adnoddau. Ymhlith y strategaethau a'r prosiectau mae:

- Pecyn hyfforddi amgylcheddol, gwastraff ac ynni integredig, a ddosbarthir i bob aelod newydd o staff, ac ar y cyd â hyfforddiant gorfodol blynyddol i'r staff presennol.
- Buddsoddi mewn technoleg a gwasanaethau adeiladau effeithlon o ran ynni yn cynnwys goleuo, rheolaethau gwrthdroyddion a chadwraeth ynni ar gyfer systemau rheweiddio.
- Gosodiadau gwres a ph·er cyfunol (CHP).
- Polisi Caffael Amgylcheddol
- Strategaeth Deithio Integredig yn cynnwys mentrau megis llwybrau beicio gwell ar y safle, Diwrnodau Gwybodaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus a Chanllaw Trafnidiaeth Gyhoeddus a ddosbarthwyd yn eang o fewn y gymuned.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a chontractwyr gwastraff ar gynlluniau i annog staff i leihau gwastraff ac ailgylchu.




*"Mae effaith amgylcheddol ac ôl-troed ecolegol yr Ymddiriedolaeth yn sylweddol, ac mae dyletswydd arnom a rôl gennym fel darparwr, cyflogwr, cymydog, deiliaid eiddo, prynwr a rheolwr cadwyn gyflenwi, ac yn y pen draw rhaid i ni ymddwyn fel dinesydd corfforaethol da."*

Keith Jones, Swyddog Sicrwydd Rheoli Ystadau, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro


**Cyswllt:**
**Keith Jones**, Swyddog Sicrwydd Rheoli Ystadau, Adran Cynllunio a Rheoli Asedau, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 4XW, 029 2074 2899, keith.jones@cardiffandvale.wales.nhs.uk

# Progress in Practice

O ganlyniad i fentrau amgylcheddol yr Ymddiriedolaeth, roedd y canlynol ymhlith eu cyflawniadau diweddar:

- Cynnal ardystiad ISO 14001 ar gyfer eu EMS, gyda gwelliant parhaus mewn perfformiad cyffredinol,
- Sicrhau lleihad o 3.6% yn y defnydd o ynni,
- Sicrhau lleihad o 4.1% (78 tunnell) mewn gwastraff clinigol,
- Sicrhau lleihad o 9.6% yn y defnydd o dd·r,
- Codi proffil yr amgylchedd o fewn yr Ymddiriedolaeth drwy fentrau hyfforddi, hyrwyddo a chyhoeddusrwydd,
- Cydymffurfio'n well â Rheoli Risgiau Cymru ym mhob un o'r Safonau sy'n ymwneud â'r amgylchedd.
- Cyfrannodd y cyflawniadau hyn at ddyfarnu'r Wobr Rhwydwaith Arena fawreddog ar gyfer Arfer Gorau Ynni yn Sector GIG Cymru.

## Pwyntiau Dysgu Allweddol:

1) Daw gwell rheoli amgylcheddol o ganlyniad i integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn yr holl weithgarwch busnes.

2) Mae system Reoli Amgylcheddol ffurfiol, megis ISO14001, a Strwythur Rheoli Amgylcheddol sy'n cyflwyno adroddiadau ar lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, o gymorth wrth gyflawni gwelliannau amgylcheddol.

3) Daw rheoli amgylcheddol llwyddiannus o waith cyfunedig llawer o unigolion a thimau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau a gwasanaethau cymorth.

4) Mae buddiannau go iawn i'w hennill o gynhyrchu adroddiad amgylcheddol, a gellir gwireddu'r rhain o fuddsoddiad adnoddau cymharol fach.



**Cysylltiadau a sefydliadau sy'n cymryd rhan:**
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro http://www.cardiffandvale.wales.nhs.uk/portal/page?_pageid=33,1&_dad=portal&_schema=PORTAL

**Cyswllt:**
**Keith Jones**, Swyddog Sicrwydd Rheoli Ystadau, Adran Cynllunio a Rheoli Asedau, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 4XW, 029 2074 2899, keith.jones@cardiffandvale.wales.nhs.uk